# Crynodeb o Weminar Prosesu ac Integreiddio Synhwyraidd ar gyfer Niwrowahaniaeth Cymru
# gan Nathalie Shek

**1. Cyflwyniad**

Roedd y gweminar hwn, dan arweiniad therapydd galwedigaethol profiadol gyda dros 20 mlynedd o ymarfer, yn canolbwyntio ar brosesu ac integreiddio synhwyraidd, yn arbennig yng nghyd-destun unigolion niwrowahanol.  Nod y sesiwn oedd darparu dealltwriaeth sylfaenol o systemau synhwyraidd a chynnig strategaethau ymarferol i gefnogi unigolion sydd â heriau prosesu synhwyraidd.

**2. Pwyntiau allweddol**

**2.1. Deall Prosesu Synhwyraidd**

- Prosesu synhwyraidd yw sut mae'r ymennydd yn derbyn, yn dehongli ac yn ymateb i fewnbwn synhwyraidd o'r amgylchedd.
- Mae'n sail i holl ddatblygiad a gweithredu dynol, sy'n dechrau yn y groth.
- Mae wyth system synhwyraidd:
    - Y pump traddodiadol: golwg, clyw, arogl, blas a chyffyrddiad.
    - Tair system ychwanegol:
        - Cynteddol (cydbwysedd a chyfeiriadu gofodol)
        - Propriodderbyniaeth (ymwybyddiaeth o'r corff trwy gyhyrau a chymalau)

Helping Kids Shine Limited (13960927)
44 Maes Y Cadno, Coity, Bridgend, CF35 6DF
www.helpingkidsshine.co.uk
office@helpingkidsshine.co.uk
01656530332

Hawlfraint © Helping Kids Shine Limited

    - Mewndderbyniad (arwyddion corff mewnol megis bod yn llwglyd a sychedig a chyflyrau emosiynol)

**2.2. Integreiddio a Rheoleiddio Synhwyraidd**

- Mae integreiddio synhwyraidd yn caniatáu i unigolion ymateb yn briodol i gyfraniad synhwyraidd.
- Rheoleiddio yw'r gallu i reoli cyflyrau emosiynol a seicolegol.
- Mae cyd-reoleiddio (cefnogaeth gan eraill) yn digwydd cyn ac yn cefnogi datblygiad hunan-reoleiddio.
- Mae'r model Ffenestr Oddefgarwch yn disgrifio'r parth cynnwrf gorau posib ble mae unigolyn yn gallu bod yn weithredol, prosesu gwybodaeth, ac ymdopi gyda straen mewn ffordd briodol.

**2.3. Gwahaniaethau Prosesu Synhwyraidd**

Nid oes ffordd "gywir" neu "anghywir" o brosesu mewnbwn synhwyraidd, ond mae gwahaniaethau prosesu synhwyraidd yn adnabod bod systemau synhwyraidd pobl yn gweithio'n wahanol. Gall y gwahaniaethau hyn effeithio ar fywyd dyddiol, cysur, dysgu, cyfranogiad neu ryngweithio cymdeithasol.

Gall unigolion:

- Or-ymateb (osgoi gweithgareddau synhwyraidd)
- Dangos diffyg ymateb (goddefol neu encilio)
- Fod yn geiswyr synhwyraidd (dyheu am fewnbwn dwys)
- neu gymysgedd o bob un o'r uchod)

**2.4. Straen a Gorlwytho Synhwyraidd**

- Gall gorlwytho synhwyraidd sbarduno'r ymateb ymladd, ffoi neu rewi.
- Gall straen cronig heb ddatrysiad arwain at flinder llwyr.
- Mae ymatebion ymddygiadol yn aml yn cuddio heriau synhwyraidd sylfaenol.

**2.5. Strategaethau ac Ymyrraeth**

- Mae dulliau o'r gwaelod i fyny (yn seiliedig ar synhwyrau, y corff yn gyntaf) yn fwy effeithiol na strategaethau o'r top i lawr (gwybyddol) mewn

achosion o golli rheolaeth gan fod dulliau o'r gwaelod i fyny yn targedu'r system nerfol yn uniongyrchol.
- Pan fo rhywun yn colli rheolaeth (mewn cyflwr ymladd/ffoi/rhewi), nid yw eu hymennydd meddwl (llabed blaen) yn hollol weithredol. Gall strategaethau megis pwysau dwys, symudiad, anadlu neu fewnbwn synhwyraidd pwyllog helpu i ddod â'r corff yn ôl i'r ffenestr oddefgarwch.
- Defnyddio gweithgareddau amlsynhwyraidd (e.e., siglo, pwysau dwys, mewnbwn echddygol llafar) gefnogi rheoleiddio.
- Mae propriodderbyniaeth yn arf arbennig o bwerus i bwyllo'r system nerfol.
- Lleoedd tawel ac ymyrraeth synhwyraidd wedi eu teilwra ar gyfer yr unigolyn hwnnw yn y cartref ac yn yr amgylchedd ysgol.

**2.6. Dyfyniadau Nodedig**

- "Cyn unrhyw beth arall, rydym yn greaduriaid synhwyraidd"
- "Nid yw rheoleiddio yn golygu tawelwch - mae'n golygu cysylltiad"
- "Nid oes un dull yn addas i bawb. Mae gwahaniaethau synhwyraidd yn unigryw i bob unigolyn"

**3. Gwersi y Gellir eu Gweithredu**

- Byddwch yn dditectif synhwyraidd: Arsylwi a deall y pwrpas tu ôl i ymddygiad
- Blaenoriaethu cyd-reoleiddio: Datblygu ymddiriedaeth ac ymlyniad gyda phlant i gefnogi eu datblygiad emosiynol
- Defnyddio ysgolion ac offer synhwyraidd: Gall cymorthyddion gweledol megis ysgolion synhwyraidd helpu plant i adnabod a chyfathrebu eu cyflyrau
- Cynnwys strategaethau synhwyraidd trwy gydol y diwrnod: Yn arbennig cyn ac o bosib ar ôl digwyddiadau sy'n llethu, ond gofynnwch am gyngor gan eich Therapydd Galwedigaethol
- Teilwra ymyraethau: Efallai na fydd yr hyn sy'n gweithio i un plentyn yn gweithio i un arall - mae profi a methu yn allweddol gyda chefnogaeth gan eich Therapydd Galwedigaethol
- Mae'r rhai sy'n rhoi gofal angen cefnogi eu hunain yn gyntaf: Defnyddiwch y gyfatebiaeth "masg ocsigen" - gofalwch amdanoch chi eich hun i roi gwell cefnogaeth i eraill.

## 4. Camau Nesaf / Sylwadau i Gloi

Bu i'r gwemniar ddod i ben trwy bwysleisio pwysigrwydd cefnogaeth unigol ac wedi'i theilwra ac amgylcheddau cynhwysol sy'n parchu gwahaniaethau synhwyraidd ac yn cefnogi gwahaniaethau niwro. Bu i'r siaradwr annog dysgu a cydweithio parhaus ymysg rhai sy'n rhoi gofal, addysgwyr, a gweithwyr proffesiynol i feithrin amgylchedd ble gall unigolion niwrowahanol ffynnu.